CYFRES A4

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori 1 Pedr yn cysgu

DARLLENWCH
Mathew 26: 36-46

Mae'r stori yma'n sôn am: **Iesu'n gweddïo ar ei Dad.**



Ydych chi erioed wedi mynd i gysgu ar ôl i rywun ofyn i chi aros yn effro? Fe ddigwyddodd hynny i Pedr!

Roedd Pedr yn un o ffrindiau arbennig, neu ddisgyblion, Iesu.

Un noson, aeth Iesu â'i ddisgyblion i ardd o'r enw Gethsemane. Gofynnodd Iesu i Pedr aros yn effro tra oedd e'n mynd i weddïo ar ei Dad.

Beth oedd Iesu'n mynd i'w wneud?
G __ __ ____ __ __ ar ei Dad.

Pan ddaeth Iesu yn ôl, roedd Pedr a'i ffrindiau'n cysgu!

Aeth Iesu i ffwrdd i weddïo dair gwaith a bob tro y daeth yn ôl, roedd ei ffrindiau'n cysgu. Yna, daeth criw o ddynion i'r ardd a mynd â Iesu i ffwrdd gyda nhw.

Sawl gwaith ddaeth Iesu nôl a gweld ei ffrindiau'n cysgu?

Lliwiwch y geiriau a'u dysgu

"Gwyliwch a gweddïwch"

Mathew 26: 41

Enw

DARLLENWCH
Mathew 26: 47-56

Mae'r stori yma'n sôn am:
Beth ddigwyddodd pan gafodd Iesu ei arestio.

Stori 2 Pedr yn Ymladd

Roedd Pedr wedi siomi Iesu pan aeth i gysgu yn yr ardd. Ond fe wnaeth Jwdas, un arall o ddisgyblion Iesu, rywbeth gwaeth. Jwdas oedd yn arwain y gang o ddynion a aeth â Iesu i ffwrdd.

Ysgrifennwch enw'r dyn a helpodd elynion Iesu.

J _ _ _ _



Pan welodd Pedr fod Iesu'n cael ei ddal, roedd yn flin iawn. Estynnodd ei gleddyf ac ymosod ar un o'r dynion oedd gyda Jwdas. Torrodd ei glust i ffwrdd.

Dywedodd Iesu wrtho am stopio ar unwaith ac fe wnaeth Iesu roi clust y dyn yn ôl. Weithiau, rydyn ni'n gwylltio fel Pedr ac yn dweud neu'n gwneud pethau drwg.

Mae Iesu'n helpu Cristnogion i beidio ag ymladd na bod yn gas wrth bobl eraill.

Lliwich y llun o Jwdas a'r dynion a ddaeth i restio Iesu. Gwnewch i'r llun edrych yn dywyll achos mai yn y nos y digwyddodd hyn.

Rhedodd y disgyblion eraill i ffwrdd. Ond dilynodd Pedr o bell i weld beth fyddai'r dynion yn ei wneud i Iesu.

Dydi hi ddim bob amser yn hawdd gwneud y peth iawn. Os gwnawn ni drystio Iesu, bydd ef yn ein helpu i wneud y pethau iawn.

Enw

DARLLENWCH
Mathew 26: 69-75

Mae'r stori yma'n sôn am:
Angen i Iesu faddau i ni.

Stori 3 Pedr yn dweud celwydd am Iesu

Aeth y gang o ddynion â Iesu i dŷ'r Archoffeiriad. Daeth Pedr ar eu hôl.

Eisteddodd Pedr y tu allan i'r tŷ yn cynhesu wrth y tân. Daeth morwyn at Pedr a dweud, "Rwyt ti'n ffrind i Iesu".

Ond roedd ofn ar Pedr a dywedodd gelwydd. Dywedodd "Dw i ddim yn gwybod am beth rwyt ti'n siarad!"

Dywedodd Pedr dair gwaith nad oedd yn nabod Iesu.

Sawl gwaith ddywedodd Pedr nad oedd yn nabod Iesu?

T __ __ __ gwaith.

Roedd yn drueni nad oedd Pedr yn ddigon dewr i ddweud ei fod yn ffrind i Iesu. Yn sydyn, canodd y ceiliog. Trodd Iesu ac edrych ar Pedr. Yna, cofiodd Pedr beth ddywedodd Iesu wrtho.

"Cyn i'r ceiliog ganu, byddi di'n dweud dair gwaith nad wyt yn fy nabod i."

Aeth Pedr allan a chrïo. Roedd angen i Pedr wybod bod Iesu'n maddau iddo.

Mae angen i Iesu faddau i ni hefyd. Efallai bod Pedr wedi gofyn i Iesu a Duw faddau iddo y noson honno.

"Maddau fy holl bechodau."

Salm 25: 18

Ar ôl hyn, cafodd Iesu ei groeshoelio. Bu farw fel y gall Duw faddau'n beiau ni.

Enw

DARLLENWCH
Ioan 21: 1-19

Mae'r stori yma'n sôn am:
Pedr yn caru Iesu.

Stori 4 Iesu a Pedr yn cael sgwrs

Roedd Iesu wedi marw ar y groes. Roedd ei gorff wedi cael ei roi mewn bedd neu ogof. Ar fore Sul y Pasg, daeth yn ôl yn fyw!



Gwelodd llawer o'i ddisgyblion ef y diwrnod hwnnw!

Ymhen rhai dyddiau, aeth Pedr a'r disgyblion i bysgota. Er eu bod nhw wedi pysgota trwy'r nos, doedden nhw ddim wedi dal un pysgodyn. Yn y bore, fe welon nhw rywun ar y lan. Iesu oedd yno ond doedd y disgyblion ddim yn ei nabod.

Tynnwch lun Iesu ar y lan a lliwio'r llun.

Pwy oedd ar y lan? I __ __ __.

Dywedodd Iesu wrthyn nhw am daflu eu rhwyd i'r ochr dde i'r cwch a bydden nhw'n dal pysgod. Gwnaeth y disgyblion fel y dywedodd Iesu. Fe wnaethon nhw ddal cymaint o bysgod fel bod y rhwyd yn rhy drwm i'w chodi i'r cwch!

Dywedodd Ioan, "Yr Arglwydd yw!" Neidiodd Pedr i'r dŵr a nofio at Iesu. Cafodd Iesu a Pedr sgwrs hir. Gofynnodd Iesu i Pedr dair gwaith, "Wyt ti wir yn fy ngharu i?" Er bod Pedr wedi siomi Iesu, roedd wir yn ei garu.

Lliwiwch beth ddywedodd Pedr.

"Arglwydd, rwyt ti'n gwybod fy mod i'n dy garu di."

10

Maeu Iesu'n ein caru ni i gyd. Dyna pam y bu farw drosom ar y groes! Pan fyddwn ni'n deall hyn, fe ddylen ninnau ddweud "Arglwydd, rwy'n dy garu di."

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 1 A4

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120